Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Sadwrn 27 Mehefin 2009 yn Felin-fach, Llanbedr Pont Steffan

09.14. **Addoli Agoriadol a Chroeso**
Mae'n bleser cael croesawu 34 o Gyfeillion yma heddiw, fel a restrir ar y daflen bresenoldeb. Mae'r Cyfeillion canlynol wedi'u penodi gan eu cyfarfodydd ardal i fynychu : Canolbarth Cymru: Susan Greaves; Gogledd Cymru: Julia Aspden a Frank Brown; De Cymru: Jean Lewis; Gororau'r De: Joyce Gee.

Penodwyd Jill Evans a Joan Southern yn henaduriaid am y diwrnod.

09.15. ***Calon* a *The Friend*.**
Rydym yn penodi Bryn Jones i adrodd ar y cyfarfod hwn i *"The Friend"* ac i *"Calon"*.

09.16. Y Cyfeillion a phartneriaethau ymrwymedig o'r un rhyw

Christine Trevett, o Gwrdd Pen-y-bont ar Ogwr, a fu'n gwasanaethu yng Ngrŵp Bywyd y Crynwyr ar berthynas ymrwymedig, sydd wedi cyflwyno'r testun heddiw. Mae wedi amlinellu'r safbwynt presennol ymhlith Crynwyr a'r safbwynt cyfreithiol.

Nid yw'r cynigion cyfredol dan sylw'n awgrymu y dylai'r Crynwyr ofyn am newid cyfreithiol ond am fwy o gydraddoldeb wrth baratoi, cydnabod a chefnogi pob cwpl yng Nghyfarfodydd y Crynwyr ym Mhrydain.

Bydd newidiadau i'r geiriau ym Mhennod 16 *Quaker faith and practice* yn helpu i sicrhau y bydd cyfleoedd, sydd wedi'u rhoi gan rai cyrddau i gydnabod partneriaethau o'r un rhyw, ar gael i bob cwrdd gyda 'threfniadaeth gywir' sy'n seiliedig ar ddirnadaeth yr holl Gyfeillion. Rydym wedi sylweddoli bod yr iaith a ddefnyddir gennym i fynegi a chofnodi'r ymrwymiad yr ydym yn ei wneud yn bwysig. Mae angen i ni fod yn ymwybodol o'r teimladau y tu ôl i'r iaith a ddefnyddir gennym.

Nid ydym wedi ceisio cyrraedd unrhyw gasgliadau heddiw, ond yn hytrach deall ein hofnau, sensitifrwydd, disgwyliadau, gwirioneddau a'n gwerthoedd ein hunain. Buom yn cwrdd mewn grwpiau bach i ystyried y cwestiynau canlynol, gan rannu syniadau hefyd trwy nodiadau gludiog (*post-its*) ac mewn sesiwn lawn:

1. Mae rhai Cyfeillion yn siarad am yr angen am newid yng ngoleuni 'tystiolaeth i gydraddoldeb' y Crynwyr. Beth yw ystyr 'tystiolaeth i gydraddoldeb' mewn perthynas â'r pwnc hwn?
2. Yn ôl dealltwriaeth y Cyfeillion, beth yw diben priodas ac a yw'r un fath mewn perthynas â phartneriaethau ymrwymedig o'r un rhyw?
3. Pe bai Cyfeillion yn penderfynu ei bod yn iawn cydnabod partneriaethau ymrwymedig o'r un rhyw'n ffurfiol yn ôl ein disgyblaeth, sut y gellid gwneud hyn?
4. Mae priodasau Cyfeillion ' yng ngofal y Cwrdd'. Beth ddylai'r goblygiadau fod ynglŷn â gofal bugeiliol ar gyfer Cyfeillion o ystyried Crynwyr hoyw a lesbiaid (neu gyplau lle y mae un yn Gyfaill) sy'n ffurfio ac yn byw mewn partneriaethau sifil neu sy'n bwriadu gwneud hynny?
5. Beth sydd mewn enw? Yn y mater hwn, pa mor bwysig yw'r iaith yr ydym yn dewis ei defnyddio, i'r Cwrdd/y Gymdeithas ac i bartneriaid? A allai hi ymddangos i rai pobl yn anfoddhaol neu'n rhywbeth sy'n brifo?

Rydym wedi sylweddoli sut y gall trafodaeth am y materion hyn ynglŷn â phartneriaethau o'r un rhyw fwrw goleuni dros ein hymagwedd tuag at bob perthynas ymrwymedig. Mae'r rhain i gyd yn gofyn i

gynulliad Cymuned y Crynwyr, gan weithio ag arweiniad Duw, ddefnyddio proses gywir y Crynwyr i helpu i

- Baratoi ar gyfer ymrwymiad
- Dathlu, cydnabod a thystio i ymrwymiad
- Cynnig cefnogaeth a gofal parhaus i bartneriaethau ymrwymedig

For the right joining in marriage is the work of the Lord only, and not the priests' or the magistrates'; for it is God's ordinance and not man's; and therefore Friends cannot consent that they should join them together; for we marry none; it is the Lord's work, and we are but witnesses.

(Quaker faith and practice 16.01)

09.17 Enwebiadau a phenodiadau

(i) **Enwebiadau ar gyfer enwebiadau**: Rydym yn penodi Dafydd Jones (GC) a Jane Beaton (GC) i weithredu fel grŵp enwebu i ddod ag enwebiadau gerbron y pwyllgor enwebiadau, i wasanaethu rhwng mis Ionawr 2010 a mis Rhagfyr 2012.

(ii) **Rhyddhau:** Mae Carolyn Sansom (DC) wedi gofyn cael ei rhyddhau o'r Pwyllgor Trefniadau. Rydym yn gofyn i'r Pwyllgor Enwebiadau chwilio am rywun i gymryd ei lle.

(iii) **Enwebiad fel Llywodraethwr yr Encilfa** (penodiad y Cyfarfod Dioddefiadau) Rydym yn cytuno â'r cais i enwebu Cyfaill o Gymru i wasanaethu fel Llywodraethwr *yr Encilfa* e am gyfnod o dair blynedd o 1.1.2010

(iv) **Penodiadau:** Cynrychiolydd yng nghyfarfod blynyddol yr Annibynwyr i'w gynnal yn Rhuthun 16.7.09: Janice Jones (GC)

(v) **Penodiadau blynyddol:** Bydd penodiadau ar gyfer 2010 ymlaen yn dibynnu ar benderfyniadau a wneir ynglŷn â strwythur yr is-bwyllgorau. Rydym yn annog y Pwyllgor Enwebiadau i ddefnyddio Calon i hysbysebu'r enwebiadau y ceisir amdanynt yn eang ac i annog Cyfeillion i roi enwebiadau gerbron.

(vi) **Hyfforddiant enwebiadau**: Bydd ein cynullydd enwebiadau, Liz Butler, yn mynychu digwyddiad cwrs hyfforddi blynyddol Woodbrooke ar Enwebiadau rhwng 6-8 Hydref 2009

(vii) **Cyfarfod ynglŷn â Sefydliad Heddwch Cymru 4 Gorffennaf 2009 Aberystwyth:** bydd Jane Harries a Wilma Walker yn mynychu'r cyfarfod hwn ar ran sefydliad arall, ac yn adrodd yn ôl a fyddai'n briodol i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ymwneud â hyn ymhellach.

09. 18. *A Framework for action*.
(Mae Cofnod 09.07 yn cyfeirio)

Mae ein clerc cynorthwyol, Lynn Moseley, wedi crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd gan Swyddfa'r Clerc Cofnodi gan gyfarfodydd yng Nghymru. Mae ei hadroddiad wedi cael ei ddosbarthu i gyrddau lleol. Mae Lynn wedi cyflwyno'r pwnc gan ein hatgoffa o gefndir y ddogfen hon. Rydym wedi clywed sut y mae'r Cyfarfod Dioddefiadau'n defnyddio'r ymatebion a dderbyniwyd.
Rydym wedi rhannu syniadau ynglŷn â sut y gallem ddefnyddio'r fframwaith i arwain ein gwaith dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

- Sut y gall Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru helpu Cyfeillion lleol i fynd ar ôl y pryderon a leisir ganddynt? Mae'r crynodeb yn dangos yr hyn sydd eisoes yn mynd ymlaen; gallem lunio cyfeiriadur gwaith fel y gall Cyfeillion gysylltu â phobl eraill sy'n gweithio yn yr un maes. Fel corff Cymru gyfan, gallwn gydgysylltu gweithgarwch yng Nghymru, gan weithio ar ran Cyfarfod Blynyddol Prydain.

- Beth yw rôl genedlaethol Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru mewn perthynas â'r Cynulliad Cenedlaethol? Beth yr ydym yn ei wneud ynglŷn ag Uwchgynhadledd Copenhagen er enghraifft?
- Gallai'r fframwaith hefyd ddylanwadu ar ein pwyllgor trefniadau wrth iddynt gynllunio ein rhaglen weithgareddau.
- A allem afael yn y cyfle i fanteisio ar y datblygiadau newydd cyffrous sy'n digwydd i gefnogi cyfarfodydd ar draws Ewrop sy'n cydweithio â Woodbrooke ar becynnau dysgu – a allai hwn gael ei gyfieithu i'r Gymraeg?

Mae'r fframwaith yn gyffrous. Trwy ei gymeradwyo, rydym oll, yn ein cyrddau bach, yn gallu siarad yn fwy hyderus ar ran y Cyfeillion. Mae'n rhoi cyfle i ni, gan ddangos sut y gallwn rwydweithio a chyfathrebu i helpu a chefnogi'n gilydd mewn gwahanol rannau o'n gweithredu. Mae'n dangos sut y mae popeth yn ffitio at ei gilydd fel rhan o safbwynt cyfannol.

Rydym yn gofyn i Gyfeillion fynd â'r syniadau hyn yn ôl i'w cyrddau fel y gallwn barhau â'r gwaith datblygu a rhwydweithio.

09.19 Newidiadau mewn Trefniadau
(Mae Cofnod 08.19 yn cyfeirio)

Fel a ofynnwyd gan y Cyfarfod ym mis Hydref y llynedd, mae'r clercod wedi cydweithio â chynullwyr yr is-bwyllgorau ar gynigion i wneud newidiadau trefniadol i strwythur ein his-bwyllgorau, fel y gall Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ddod yn strwythur sy'n galluogi'n fwy fel adnodd i'r holl Gyfeillion yng Nghymru, gan gymryd i ystyriaeth newidiadau mewn cyfarfodydd ardal yng Nghymru a'r Gororau. Mae Deborah Rowlands wedi amlinellu prif bwyntiau'r cynigion a ragosodir yn y papur trafod sydd wedi bod ar gael i'r rhai sydd â diddordeb i'w ddarllen.

Rydym wedi cael cyfle i wneud sylwadau ar y rhain ac mae nodiadau wedi cael eu gwneud. Bydd y rhain yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth lunio'r cylch gorchwyl. Ystyrir y cynigion hefyd gan gyfarfod o glercod a chlercod ymddiriedolwyr cyfarfodydd ardal yng Nghymru a'r Gororau i'w gynnal ym mis Medi, cyn cael eu cyflwyno i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ym mis Hydref i'w cymeradwyo'n ffurfiol.

Mae angen i ni ymateb i anghenion y byd sydd ohoni, a bod yn hyblyg.

09.20 Perthynas â chyfarfodydd ardal yng Nghymru a'r Gororau
(Mae cofnod 08.19 a 09.08 yn cyfeirio)

Rydym wedi derbyn rhai newidiadau i'r Memorandwm drafft a awgrymwyd gan Gyfarfod Ardal De Cymru. Dosbarthwyd y drafft i bob cwrdd lleol ym mis Chwefror, fel y gallent wneud sylwadau pe baent yn dymuno (Cofnod 09.06.42 Cyfarfod Ardal DC a gynhaliwyd 13.06.09).

Rydym wedi derbyn llythyr gan Frank Brown, ar ran ymddiriedolwyr cyfarfod ardal Gogledd Cymru, sy'n mynegi peth pryder am drefn y broses o lunio memoranda o'r fath, ac rydym wedi ymgynghori â'r clerc cofnodi cynorthwyol. Rydym yn cytuno mai'r hyn sy'n bwysig yw egwyddor egluro'r berthynas â phob cyfarfod ardal, yn hytrach na'r enw. Fe'n hatgoffwyd nad oedd rhai o'r materion hyn wedi'u hegluro pan sefydlwyd Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru'n gyntaf. Mae'r cymorth ariannol o gyfarfodydd ardal yn hollbwysig wrth alluogi'r cyfarfod hwn ac mae angen cofnodi hyn a'i gydnabod fel cytundeb dan gontract. Teitl posibl efallai yw 'Cofnod Cytundeb'.

Rydym yn cytuno y byddai o fudd bellach anfon y drafft presennol i gyfarfod ardal canolbarth Cymru am eu sylwadau. Bydd angen math gwahanol o gofnod cytundeb â Gororau'r De a chyfarfodydd eraill y Gororau.

Bydd y clercod yn dosbarthu draft diwygiedig i'w drafod ym mis Medi, i gael ei gyflwyno'n ôl i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ym mis Hydref.

09.21 Cyfathrebu.

Mae gwefan Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru bellach yn weithredol (**www.quakersinwales.org.uk**). Mae'r swyddog gweinyddol yn delio â'r namau fformatio sy'n weddill. Mae wedi dechrau gwaith ar y wefan Gymraeg, gan ystyried sut i sicrhau y cysylltir y ddwy wefan yn effeithiol.

Erbyn hyn mae'r cofnodion, y papurau a'r cyfarwyddiadau ar gyfer y cyfarfodydd ar gael ar 'hysbysfwrdd' Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru fel rhan o'r Wefan, i unrhyw un eu lawrlwytho. Ar ben hynny, mae rhifyn diweddaraf Calon yn dangos i ni sut y gallai'r cyhoeddiad hwn – a ddylai fod yn cyrraedd pob Cyfaill yng Nghymru – ddosbarthu gwybodaeth yn amserol yn fwy effeithiol na'r system bresennol o ddibynnu ar glercod cyrddau lleol.

Rydym felly yn cytuno, am gyfnod arbrofol, mai dim ond y daflen ar gyfer y cyfarfod nesaf y byddwn yn ei dosbarthu fel arfer fel copi papur i gyrddau, gyda ffynonellau gwybodaeth bellach yn cael eu dangos yn glir. Bydd y swyddog gweinyddol yn falch o anfon copïau papur at unrhyw unigolyn na all dderbyn copi electronig, os nad ydynt yn gallu gwneud trefniadau i gael hwn gan aelod o'u cwrdd eu hunain.

09.22. Cytûn a Chysylltiadau Cristnogol ac Amlffydd
(Mae cofnod 09.13 yn cyfeirio)

(i) Cytûn

Mae Cytûn wedi trafod mater y rhwydwaith merched, gan benderfynu cysylltu'r gwaith hwn â'r gwaith ar gydraddoldeb.

Mae costau'r Eisteddfod wedi codi'n uwch na'r hyn a gytunwyd yn ein cyfarfod diwethaf. Mae trysorydd Cytûn wedi egluro eu bod wedi gofyn am fwy na'u siâr gan rai eglwysi yn y gorffennol, ac felly roeddent wedi ailasesu cyfraniad pob eglwys. Mae ein trysorydd wedi talu'r gost ychwanegol hon.

Mae *Churches Together in Britain and Ireland* yn torri tua thri chwarter o'i staff oherwydd nad yw'r prif eglwysi am ei ariannu fel ag y byddent o'r blaen. Ni fydd fformiwla'r 'pot cyffredin', lle y telid yr holl arian i'r pedair gwlad, gyda 10% o hyn yn cael ei dalu i Cytûn i ariannu gwaith yng Nghymru, yn gweithredu bellach. Mae hyn yn golygu y gofynnir i'r holl eglwysi ariannu Cytûn yn uniongyrchol. Mae peth amheuaeth y bydd pob eglwys yng Nghymru'n dymuno cyfrannu digon i barhau'r holl waith a wneir ar hyn o bryd. Gofynnir i ni am £638. Ar hyn o bryd, mae'r Crynwyr yn cyfrannu £1674 i Gymru. Telir ein cyfraniad i Cytûn yn ganolog.

Mae ymateb wedi'i ddrafftio i'r cais am gefnogaeth i gaplan y Corfflu Hyfforddiant Awyr, gan ddweud bod Crynwyr yn gweithio yn erbyn recriwtio milwyr sy'n blant. Byddem yn croesawu cyfle i gyfrannu safbwynt heddychwyr i'r gaplaniaeth.

(ii) **Pwyllgor Cysylltiadau Cristnogol ac Amlffydd y Crynwyr (QCCIR**).
Cyfarfu Catherine James a'n cynrychiolydd QCCIR newydd, Alice Southern, â Robin Bennett, clerc QCCIR, ac Aled Edwards o Cytûn i drafod materion eciwmenaidd a rhyng-ffydd yng Nghymru. Cyfarfu QCCIR yn Noddfa, Penmaen-mawr, gogledd Cymru 12 Mehefin, am eu cyfarfod cyntaf yn y tair blynedd newydd. Gwahoddwyd Cyfeillion lleol i'w fynychu ganddynt. Rhoddodd Julia Aspden, Gerald Hewitson a Catherine James wybodaeth i'r pwyllgor ar faterion rhyng-eglwysig a rhyng-ffydd yng Nghymru, gan sôn am faterion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, ac egluro'r berthynas ffrwythlon sydd rhwng Cytûn a'r Cynulliad Cenedlaethol.

09.23 Eisteddfod a Gwaith Ymestyn Allan arall

(i) Eisteddfod. Mae Mari Evans yn casglu enwau i'r rota i'r Eisteddfod yn y Bala. Mae llawer o fylchau o hyd. Bydd y Crynwyr yn gyfrifol, ar y cyd â'r Eglwys Gatholig, am luniaeth ddydd Iau 6 Awst, ond bydd Crynwyr yn bresennol drwy gydol yr wythnos os bydd digon o wirfoddolwyr.

(ii) Taflen i Ymholwyr**.** Cyflwynodd y pwyllgor cyhoeddiadau'r daflen i ymholwyr, y maent yn gweithio arni ers 18 mis, i'r adran Ymestyn Allan yn *Friends House*. Fe'n hysbyswyd gan Tom Harris o'r adran Ymestyn Allan ein bod bellach yn dosbarthu pecyn sy'n fwy cryno o lawer, ac sy'n cynnwys, ar gyfer ymholwyr Cymraeg, ddeunydd cyfwerth yn y Gymraeg ac yn Saesneg, gan gynnwys y daflen nawplyg fer a'r *Cynghorion a Holiadau* dwyieithog. Mae'r daflen hirach newydd ar gael erbyn hyn i'w defnyddio yn yr Eisteddfod, neu ar gyfer cyfleoedd eraill i ymestyn allan yng Nghymru. Gellir eu cynhyrchu yn y niferoedd sydd eu hangen ar gais i'r swyddog gweinyddol.

(iii) Cyfieithiad Cymraeg o daflenni Angladdau a Phriodasau: Mae'r rhain wedi cyrraedd erbyn hyn ac maent ar gael i'w defnyddio.

(iv) Taflen i'r Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala. Mae hon yn cael ei chyfieithu ar hyn o bryd.

(v) Taflen Adnoddau. Mae taflen 2009 ar adnoddau ar gyfer Ymestyn Allan wedi'i hanfon i'r holl gyrddau lleol ac mae wedi cael ei dosbarthu heddiw. Mae'n dangos yn glir pa adnoddau sydd ar gael yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

(vi) Arddangosfa: Mae Roger Holloway yn gweithio ar uwchraddio'r arddangosfa barhaol, hy, ""Yr hyn rydym yn ei gredu…" a phaneli Waldo.

(vii) Cerdded i Gynulliad y Cyfarfod Blynyddol: Mae Catherine James yn gobeithio cychwyn cerdded o Dŷ Cwrdd Dorothy Owen yn Nhabor ger Dolgellau i Gynulliad y Cyfarfod Blynyddol ar 3ydd o Orffennaf. Bydd yn dilyn llwybr Mari Jones ar y diwrnod cyntaf, ac yn mynychu'r Cyfarfod Ardal yng Nglan-llyn ar yr ail ddiwrnod cyn cerdded ymlaen gyda rhai Crynwyr eraill i'r Bala.

09.24 Trefniadau 2009 a 2010

Mae ein Pwyllgor Trefniadau wedi adrodd fel a ganlyn:

(i) Encilfa 16 Mai Dolwyddelan: mynychwyd yr encilfa gan 12 o Gyfeillion gan gynnwys rhai o ochr draw i Glawdd Offa. Roedd y diwrnod yn gyfle gwerthfawr i Gyfeillion gyd-addoli, cwrdd â Chyfeillion newydd ac i gyfarfod â Chyfeillion eto o'n cyrddau gwasgaredig ac o bellach i ffwrdd.

(ii) 24 Hydref: Llanelwedd.

(iii) Dyddiadau ar gyfer 2010. Rydym yn cytuno i gynnal ein cyfarfodydd rheolaidd deirgwaith y flwyddyn. Dyddiadau a chanolfannau sydd wedi'u hawgrymu yw: -

27 Chwefror: Glantwymyn
26 Mehefin: Y Drenewydd
30 Hydref: Aberystwyth neu Lanfarian.

Byddai'r pwyllgor trefniadau'n croesawu awgrymiadau ynglŷn â thestunau neu themâu.

Hoffem gynnal digwyddiad preswyl yn ne Cymru yn 2010 os yn bosibl ac rydym yn gofyn am wirfoddolwyr i drefnu hwn.

09.25 Calon

Mae dau rifyn o Calon wedi'u dosbarthu ers i ni gyfarfod ddiwethaf. Daeth rhifyn gohiriedig y gaeaf allan ym mis Mawrth a rhifyn cyntaf Calon ar ei newydd wedd ym mis Mai.
Rydym yn diolch i Maureen Hughes am ei gwasanaeth ffyddlon fel golygydd Calon dros y tair blynedd diwethaf.

Yn dilyn y trafodaethau yng Nghyfarfod diwethaf y Cyfeillion yng Nghymru, rydyn yn croesawu'r pethau newydd yn Calon, a gynhyrchir gan y golygydd newydd, Stevie Krayer, gan ddefnyddio arbenigedd technegol ein swyddog gweinyddol ar gynllun a chynhyrchu. Rydym yn cytuno y dylem gyhoeddi un rhifyn arall eleni.

Mae Jules Montgomery wedi gweithio'n galed i gael dyfynbrisiau argraffu eraill, sydd wedi'u cyflwyno i ni heddiw. Byddai fersiwn deneuach yn rhatach i'w chynhyrchu a'i phostio. Gallem edrych ar y posibilrwydd o ofyn i'r argraffwyr ei phostio. Rydym yn gofyn i'r golygyddion ystyried cynyddu dosbarthu electronig.

Yn ôl Waldo Williams: Mae'n rhaid i ni hawlio'r preswyl, heb holi'r pris.

Catherine James
Deborah Rowlands
Cyd-glercod